

# Pecyn Dogfennau



Mark James LLM, DPA, DCA  
Prif Weithredwr,  
*Chief Executive,*  
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP  
County Hall, Carmarthen. SA31 1JP

DYDD IAU, 6 MEDI 2018

**AT: HOLL AELODAU'R CYNGOR SIR**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **CYNGOR SIR** A GYNHELIR YN Y SIAMBR, **NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN AM 10.00 AM.** AR **DYDD MERCHER, 12FED MEDI, 2018** ER MWYN CYFLAWNIR MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Mark James* DYB

**PRIF WEITHREDWR**



AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

Swyddog Democraidd:	Martin Davies
Ffôn (Ilinell uniongyrchol):	(01267) 224059
E-bost:	<a href="mailto:MSDavies@sirgar.gov.uk">MSDavies@sirgar.gov.uk</a>
Cyf:	AD016-001



EICH CYNGOR arleinamdanî

[www.sirgar.llyw.cymru](http://www.sirgar.llyw.cymru)

YOUR COUNCIL doitononline

[www.carmarthenshire.gov.wales](http://www.carmarthenshire.gov.wales)

# A G E N D A

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.
2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.
3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.
4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR YR 11EG GORFFENNAF 2018. 7 - 16
5. CYFLWYNIAD - GWERTHUSIAD AR OL Y DIGWYDDIAD - TAITH PRYDAIN 2018. 17 - 20
6. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).
7. CWESTIYNAU GAN AELODAU:-
  - 7.1 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD ANDRE MCPHERSON I'R CYNGHORYDD LINDA EVANS, YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS TAI

“A allaf ofyn beth mae'r Awdurdod hwn yn ei wneud i fynd i'r afael â digartrefedd yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys unrhyw gamau er mwyn dechrau defnyddio tai gwag unwaith yn rhagor?”
  - 7.2 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD BILL THOMAS I'R CYNGHORYDD GLYNNOG DAVIES, YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT

“Dyweddodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant wrthyf ddiwedd mis Gorffennaf, yn dilyn trafodaethau rhwng Cyrff Llywodraethu Ysgol Tremoilet ac Ysgol Llanmiloe, fod trefniadau anffurfiol yn cael eu rhoi ar waith i ddod â'r disgylion i un safle yn Llanmiloe ar ddechrau'r tymor hwn.

Yn ôl y Rhaglen Moderneiddio Addysg, cynllun yr Awdurdod ar gyfer yr ardal yw bod un ysgol ar gyfer Talacharn.

Pryd fydd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant yn rhoi esboniad llawn i'r rhieni lleol ynghylch y cynlluniau ar gyfer yr ardal, fel nad oes rhagor o blant yn cael eu trosglwyddo gan eu rhieni i ysgolion eraill?”

**7 .3 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD ANN DAVIES I'R CYNGHORYDD PETER HUGHES GRIFFITHS, YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS DIWYLLIANT, CHWARAEON A THWRISTIAETH**

“Roedd twristiaeth yn werth £434 miliwn i economi Sir Gaerfyrddin yn 2017 yn ôl astudiaeth a luniwyd ar gyfer y cyngor sir, sef cynnydd o 7.8% ers y flwyddyn flaenorol.

Yn ôl yr ymchwil, cafwyd cyfanswm o 6.39 miliwn o ddiwrnodau ymweld, sef cynnydd o 7.2% ers 2016. Roedd twristiaeth yn 2017 wedi cefnogi 6,343 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yn y sir, sef cynnydd o 5.3% ers 2016. Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae gwerth twristiaeth i'r sir wedi cynyddu £150 miliwn.

A all yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ddweud wrthyf sut y cafwyd y ffigurau gwych hyn a beth yw ei ddisgwyliadau ar gyfer 2018?”

**8. YSTRIED Y RHYBUDDION O GYNНИG CANLYNOL:-**

**8 .1 CYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD TINA HIGGINS**

“Mae'r Cyngor hwn yn ychwanegu ei gefnogaeth at Ymgyrch Genedlaethol Deddf Lucy i wahardd ffermio cŵn bach gan drydydd parti. Bydd y Cyngor hwn yn ychwanegu ei enw at y rhestr gynyddol o sefydliadau cefnogol a bydd yn mynd ati'n rhagweithiol i dynnu sylw ein preswylwyr ar draws y Sir at yr ymgyrch. Mae'r Cyngor hwn yn gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, gan gefnogi'r galw am gamau gweithredu brys yngylch y mater hwn.”

**8 .2 CYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD EMLYN SCHIAVONE**

“Hoffwn gynnig bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymrwymo i gael ei gydnabod yn ffurfiol fel Sir Garedig. Fel rhan o'r agenda Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, ar y cyd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ni fu erioed amser gwell i hyrwyddo cydnerthedd a charedigrwydd yn ein cymunedau.

Mae'n cael ei gydnabod yn gyffredinol fod bod yn garedig yn llesol i'r sawl sy'n garedig, yn ogystal â'r rheiny y maent yn garedig iddynt. Mae'r ysgogiad i hyrwyddo cysylltwyr caredigrwydd yn ein cymunedau yn hynod berthnasol o ran mynd i'r afael ag arwahanrwydd ac unigrwydd; dau beth y



**EICH CYNGOR arleinamdan**  
www.sirgar.llyw.cymru

**YOUR COUNCIL doitononline**  
www.carmarthenshire.gov.wales

derbynir bellach eu bod yn cyfrannu at iechyd a llesiant gwael.

Mae menter Mae Sir Gaerfyrddin yn Garedig yn creu ac yn cryfhau cysylltiadau yn y gymuned. Gellir gwella ar hyn ymhellach drwy ddatblygu sesiynau ymwybyddiaeth o Garedigrwydd a hybu Hyrwyddwyr Sir Gaerfyrddin Garedig.

Mae cyflwyno rhagnodwyr cymdeithasol ynghlwm wrth feddygfeydd meddygon teulu yn engrafft o fynd i'r afael ag anghenion. Yn yr un modd, mae Sefydliad Jo Cox yn cyllido swydd yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro i leihau arwahanrwydd ac unigrwydd drwy wneud pethau caredig yn y gymuned. Gall prosiectau sy'n pontio'r cenedlaethau greu cysylltiadau cadarnhaol rhwng aelodau hŷn ac ifanc ein cymunedau.

Gofynnaf gyda pharch i'r Cyngor gefnogi'r cynnig hwn."

### **8 .3 CYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD JOHN JAMES**

"Bod y Cyngor hwn yn mabwysiadu polisi sy'n cyflwyno arwyddion yn yr holl fannau wrth ymyl y ffordd a gydnabyddir ar gyfer cadwraeth gan yr Awdurdod Lleol hwn a, lle bynnag y bo'n bosibl, hysbysfyrrddau sy'n rhoi gwybodaeth am yr holl fanteision i'r ardal a neilltu ar gyfer cadwraeth. Hefyd, bod y Cyngor yn mynd at Gynghorau Tref a Chymuned a'u hannog i wneud yr un peth."

### **9. YSTYRIED ARGYMHELLION Y BWRDD GWEITHREDOL O RAN Y MATERION CANLYNOL:-**

**9 .1 GORCHYMYN DATBLYGU LLEOL DRAFFT – CANOL TREF LLANELLI** 21 - 44

### **10. DERBYN ADRODDIADAU CYFARFODYDD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:-**

**10 .1 22 MEHEFIN 2018** 45 - 46

**10 .2 2 GORFFENNAF 2018** 47 - 52

**10 .3 30 GORFFENNAF 2018** 53 - 58

### **11. YSTYRIED ARGYMHELLAD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD O RAN Y MATER CANLYNOL:-**

**11 .1 GWEITHIO'N DDI-BAPUR** 59 - 66

- 12. CYD-BWYLLGOR DINAS-RANBARTH BAE ABERTAWE - AELODAETH.** 67 - 72
- 13. ETHOL IS-GADEIRYDD Y PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD.**

Yn unol â Rheol Gweithdrefn y Cyngor 4 (2) cyflwynwyd yr enwebiadau canlynol i'r Prif Weithredwr:-

Y Cynghorydd Aled Vaughan Owen - Grŵp Plaid Cymru  
Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau eraill.

#### **14. AELODAETH PWYLLGORAU**

##### **14 .1 NODI BOD Y GRWP PLAID CYMRU WEDI ENWEBU:-**

1. Y CYNGHORYDD KAREN DAVIES I LENWI'R LLE GWAG AR Y PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD;
2. Y CYNGHORYDD KAREN DAVIES I LENWI'R LLE GWAG AR Y PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD;
3. Y CYNGHORYDD SUSAN PHILLIPS I LENWI'R LLE GWAG AR Y PWYLLGOR TRWYDDEDU.

##### **14 .2 NODI BOD Y GRWP LLAFUR WEDI ENWEBU:-**

1. Y CYNGHORYDD JOHN PROSSER I GYMERYD LLE'R CYNGHORYDD SUZY CURRY AR Y PWYLLGOR CYNLLUNIO;
2. Y CYNGHORYDD ANDRE MCPHERSON I GYMERYD LLE'R CYNGHORYDD JOHN PROSSER AR Y PWYLLGOR TRWYDDEDU.

#### **15. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)**

##### **15 .1 PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD AR AMGYLCHEDD - 18 MAI 2018**

##### **15 .2 PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT - 7 MEHEFIN 2018**

##### **15 .3 PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU - 14 MEHEFIN 2018**

##### **15 .4 PWYLLGOR CRONFA BENSIWN DYFED - 20 MEHEFIN 2018**

##### **15 .5 PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU - 25 MEHEFIN 2018**

##### **15 .6 PWYLLGOR TRWYDDEDU - 27 MEHEFIN 2018**

- 15 .7 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 28 MEHEFIN 2018**
- 15 .8 PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD AR AMGYLCHEDD - 29 MEHEFIN 2018**
- 15 .9 CYFARFOD AR Y CYD Y PWYLLGORAU CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD & ADDYSG A PHLANT - 4 GORFFENNAF 2018**
- 15 .10 PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT - 5 GORFFENNAF 2018**
- 15 .11 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 10 GORFFENNAF 2018**
- 15 .12 PWYLLGOR PENODI B - 12 GORFFENNAF 2018**
- 15 .13 PWYLLGOR ARCHWILIO - 13 GORFFENNAF 2018**
- 15 .14 PWYLLGOR CRAFFU POLIAI AC ADNODDAU - 19 GORFFENNAF 2018**
- 15 .15 PWYLLGOR TRWYDDEDU - 2 AWST 2018**
- 15 .16 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 7 AWST 2018**

DS: Mae adroddiadau yn cael eu hargraffu mewn du a gwyn yn unig er mwyn arbed costau. Fodd bynnag mae pob adroddiad ar gael ar-lein fel y gall aelodau o'r Pwyllgor / Cyngor Sir a'r cyhoedd weld lluniau/graffiau mewn lliw.

## CYNGOR SIR

**DYDD MERCHER, 11 GORFFENNAF 2018**

**YN BRESENNOL:** Cyngorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

**Y Cyngorwyr:-**

H.I. Jones	S.M. Allen	L.R. Bowen	K.V. Broom
C.A. Campbell	D.M. Cundy	S.A. Curry	C.A. Davies
T.A.J. Davies	G. Davies	H.L. Davies	I.W. Davies
J.A. Davies	S.L. Davies	W.R.A. Davies	E. Dole
J.S. Edmunds	H.A.L. Evans	L.D. Evans	W.T. Evans
A.L. Fox	S.J.G. Gilasbey	P. Hughes-Griffiths	A.D. Harries
T.M. Higgins	J.K. Howell	P.M. Hughes	J.D. James
R. James	D.M. Jenkins	J.P. Jenkins	G.H. John
C. Jones	B.W. Jones	D. Jones	G.R. Jones
A. Lenny	M.J.A. Lewis	K. Lloyd	K. Madge
S. Matthews	A.S.J. McPherson	E. Morgan	A.G. Morgan
S. Najmi	D. Nicholas	B.D.J. Phillips	J.S. Phillips
D. Price	J.G. Prosser	B.A.L. Roberts	E.M.J.G. Schiavone
H.B. Shepardson	L.M. Stephens	B. Thomas	D. Thomas
E.G. Thomas	G.B. Thomas	J. Tremlett	A. Vaughan Owen
D.T. Williams	D.E. Williams	J.E. Williams	

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-**

M. James, Prif Weithredwr;  
W. Walters, Cyarwyddwr Adfywio a Pholisi;  
G. Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Phlant;  
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd;  
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad);  
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;  
I. Jones, Pennaeth Hamdden;  
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd;  
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel Dros Dro;  
D. Hockenhull, Rheolwr y y Cyfryngau a Marchnata;  
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin – 9:30am – 11:15am a 11:35am – 12.10pm**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyngorwyr F. Akhtar, P. Edwards, C. Evans, R. Evans, C.J. Harries, A. James, T.J. Jones, G. Thomas ac A.D.T. Speake.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

### **3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.**

Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf am y gweithgareddau a'r digwyddiadau yr oedd wedi mynd iddynt wrth gynrychioli'r Cyngor. Roedd y rhain yn cynnwys:

- agoriad swyddogol dwy ysgol gynradd mewn adeiladau newydd a chyffrous - Penrhos yn Llanelli a Thirmsaran, ac ar yr un pryd roedd disgylion yn mynchu ysgol newydd Porth Tywyn am y tro cyntaf;
- agoriad cylch beicio newydd ym Mharc Gwledig Pen-bre, cynllun cyffrous a fyddai'n adnodd gwerthfawr i blant a phobl ifanc;
- agoriad prynhawn llawn digwyddiadau ym Mhorth Tywyn, a drefnwyd yn effeithlon gan Gyngor Tref Pen-bre a Phorth Tywyn er mwyn nodi 90 mlynedd ers i Amelia Earhart lanio oddi ar yr arfordir ger Pwll;
- dechrau ras 10k Rhydaman ar 8 Gorffennaf 2018, lle cymerodd tua 300 o bobl ran yn y tywydd twym;
- te prynhawn yn Neuadd Gymunedol Llanarthne i godi arian ar gyfer creu cofeb barhaol yn y pentref i gofio'r plwyfolion a gollodd eu bywydau yn ystod y rhyfeloedd;
- agorwyd coedwigoedd coffa yng Nghoed Ffos Las gan y Dywysoges Frenhinol, a chynhaliwyd digwyddiad yn Ysbyty'r Tywysog Phillip gyda'r Cynghrair Cyfeillion i ddathlu pen-blwydd y GIG yn 70 oed;
- ymwelodd Tywysog Cymru a Duges Cernyw â Rheilffordd Calon Cymru er mwyn dathlu pen-blwydd y Rheilffordd yn 150 oed;
- llawer o ddigwyddiadau eraill ar draws Sir Gaerfyrddin gan gynnwys Gwasanaethau Dinesig, Ffeiriau Haf, Gŵyl Afon - Caerfyrddin, a diwrnodau graddio ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Estynnwyd llongyfarchiadau i Mrs Pat Thomas, sef cadeirydd presennol Cyngor Cymuned Dyffryn Cennen, a Mrs Beryl Owens, gan eu bod wedi cael eu henwebu i gael Gwobr Hyrwyddwr Cymunedol Jo Cox Cymru ar gyfer eu gwaith yn ardal Trap/Llandyfâñ.

Estynnwyd llongyfarchiadau i Gylch Meithrin Felin-foel, gan mai hwn oedd y Cylch cyntaf yng Nghymru i ennill gwobr aur Safonau Serennog gan Fudiad Meithrin.

### **4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR YR 13EG MEHEFIN 2018**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2018 gan eu bod yn gywir.**

### **5. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).**

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## **6. CWESTIYNAU GAN AELODAU:-**

### **6.1. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD TINA HIGGINS I'R CYNGHORYDD PHILIP HUGHES, YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS DDIOGELU'R CYHOEDD**

Dyweddodd y Cadeirydd wrth y Cyngor fod y cwestiwn hwn wedi'i dynnu'n ôl.

### **6.2. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD BILL THOMAS I'R CYNGHORYDD GLYNOG DAVIES, YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG Y PHLANT**

“Dros ddwy flynedd, talodd darparwr athrawon cyflenwi mwyaf Cymru bron £1 miliwn i ddau gyfarwyddwr. Eto, mae cyflogau ac amodau athrawon cyflenwi gryn dipyn yn is nag ar gyfer staff parhaol. O ganlyniad i'r annhegwyd hwn cynhelir gwrthdytiad yng Nghaerdydd ar 7 Gorffennaf. Beth mae'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant yn ei wneud i drefnu bod athrawon cyflenwi yn cael eu comisiynu a'u cyflogi trwy drefniadau eraill, gan gynnwys eu cyflogi'n uniongyrchol?”

#### **Ymateb gan y Cynghorydd Glynog Davies, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

Hoffwn ddechrau gan ddweud bod athrawon cyflenwi yn adnodd hanfodol i'n hysgolion. Wrth gwrs, maent yn gwneud gwaith cyflenwi pan fydd athrawon yn sâl ac felly maent yn sicrhau bod addysg yn parhau i gael ei rhoi pan fydd yr athro/athrawes arferol yn yr ysgol yn absennol. Ond wrth gwrs, mae angen athrawon cyflenwi arnom pan fydd ein hathrawon yn mynd ar gyrsiau ac mae'r cyrsiau hyfforddiant hynny yn rhan hanfodol o ddatblygiad yr unigolion hynny. Mae'n bwysig bod ein hathrawon yn datblygu eu sgiliau ac felly gallwch weld bod athrawon cyflenwi yn rhan hanfodol o lwyddiant ein system addysg.

Mae dod o hyd i athrawon cymwysedig da yn gallu bod yn anodd iawn, ar adegau gall fod yn amhosibl, felly mae'n bwysig bod gennym ryw fath o system ar waith.

Rwyf yn barod i gyfaddef heddiw fod yna anawsterau, felly gallaf sicrhau'r Cynghorydd Bill Thomas fy mod i a'r Adran yn nodi hyn a gwaith Llywodraeth Cymru. Rydym eisiau gweld ateb i'r sefyllfa anodd hon. Rydym wedi dosbarthu'r dogfennau a'r canllawiau sydd wedi cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ac ESTYN. Gallwch gael copïau o'r rheiny os ydych yn dymuno. Fodd bynnag, y peth pwysig yw bod athrawon yn gymwysedig ar gyfer y gwaith.

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud? Beth mae Llafur Cymru yn ei wneud i sicrhau bod athrawon cyflenwi'n cael cyflog teg? Sefydlwyd gweithlu gweinidogol ym mis Mehefin 2016, a chafwyd adroddiad ym mis Chwefror 2017, a ddiweddarwyd ym mis Medi y llynedd gan Kirsty Williams, sef Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg. Mae Llywodraeth Cymru yn chwilio am fodelau eraill o glyfogi athrawon cyflenwi.

Ar hyn o bryd, Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n pennu graddfa gyflog a chylch gwaith athrawon cyflenwi. Gallai ddod yn gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru, a gobeithiaf y bydd hynny'n digwydd. Rydym wedi cael gwybod mai'r adeg gynharaf y gellir trosglwyddo'r cyfrifoldeb hwn fydd mis Medi y flwyddyn nesaf. Blwyddyn i fis Medi.

Ar hyn o bryd yn Sir Gaerfyrddin, rydym yn rhan o gynllun peilot a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sy'n helpu'r athrawon hynny sydd newydd gymhwys. Y nod yw rhoi cymorth iddynt fynd ar yr ysgol yrfaol; mae'n hynod bwysig gael y swydd gyntaf honno. Hoffem gynyddu ein galluoedd o ran addysgu. Mae 11 sir wedi dangos diddordeb yn y cynllun peilot hwn ac rwyf yn falch iawn o ddweud ein bod ni yn Sir Gaerfyrddin yn un o'r rheiny. Rydym yn gweithredu'r cynllun hwn yn Ysgol Coed Cae yn Llanelli. Rhoddwyd swydd i 3 o athrawon newydd gymhwys a byddant bellach ar gael i wneud gwaith cyflenwi yn ôl yr angen. Rydym wedi mynd ati, yn fwriadol, i reciwtio athrawon dwyieithog fel y gallant fynd i ddosbarthiadau Cymraeg a dosbarthiadau Saesneg. Mae'n rhy gynnar eto i fesur effeithiolwydd y cynllun hwn, ond rydym ni, ynghyd â'r adran, yn credu ei fod yn gynllun da. Mae'n ddiddorol, ond y cwestiwn y mae pob un ohonom yn ei ofyn yw "a yw'n gynaliadwy?" Byddaf yn sicrhau y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu - Addysg. Hefyd, ar gais y Bwrdd Gweithredol, mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn edrych ar ein gwaith gydag asiantaethau. Fel sir ac fel adran, rydym eisiau cael y gwerth gorau am yr arian, yn ogystal â rhoi cyflog teg i'n gweithwyr.

Rydych wedi cyfeirio at un cwmni. Rwyf yn gwybod pa gwmni, ac ni fyddaf yn enwi'r cwmni gan ein bod yn gwe-ddarlledu'r bore yma. Cyflenwr trydydd parti ydyw, ond nid yw'n orfodol bod ysgolion yn defnyddio'r cwmni hwn. Fi yw Cadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Brynaman. Mae'r cwmni hwn wedi methu â'n cynorthwyo yn y gorffennol, nid oedd unrhyw un ar gael i ddiwallu ein hanghenion. Ond dyfarnwyd y contract i'r cwmni hwn ar ôl proses dendro drylwyr. Cafodd y gofynion technegol eu diwallu, ac roedd y telerau masnachol, sef y pris a delir am y gwasanaeth, yn dderbyniol. Felly, hwnnw oedd y tendr mwyaf economaidd. Rwy'n cymryd eich bod yn cyfeirio at y cwmni hwnnw.

Mae ei strategaeth reciwtio'n gynhwysfawr, mae'n gyffredinol. Gallaf roi'r manylion hynny i chi. Hoffwn ychwanegu ein bod yn gwario dros £4m ar athrawon cyflenwi ar hyn o bryd. Talwyd oddeutu £930,000 i'r cwmni hwnnw'n benodol. Rwy'n ymwybodol o 14 cwmni sy'n cael eu defnyddio yn Sir Gaerfyrddin, ac mae pob un ohonynt yn gwmnïoedd preifat; fel Awdurdod nid oes gennym unrhyw reolaeth dros eu cyflogau. Dim rheolaeth o gwbl.

Hoffwn ddweud hyn i gloi, mae gennym, fel sir, gynllun yswiriant sy'n dda iawn ac rydym yn cynnig hyn i'n hysgolion. Rwyf yn obeithiol iawn y bydd yr ysgolion yn manteisio ar hyn a llunio Cytundeb Lefel Gwasanaeth, a fyddai o fudd iddynt. Gallant wedyn arbed arian, dim ond os ydynt yn gwrando arnom. Felly os ydych yn rhan o Gorff Llywodraethu mewn ysgol, ac mae hynny'n wir i'r rhan fwyaf ohonoch, a gaf eich annog i fanteisio ar ein cynllun yswiriant ar gyfer athrawon cyflenwi? Mae'n fuddiol i'n hysgolion, mae gennyr wybodaeth am yr holl gwmnïau ac rwyf yn barod i drosglwyddo'r wybodaeth honno i'r Cyngħorydd Bill Thomas. Diolch yn fawr iawn.

## **Gofynnodd y Cyngorydd Bill Thomas y cwestiwn atodol canlynol:-**

Diolch am roi ateb manwl i'r cwestiwn. Nid beirniadu athrawon cyflenwi oedd bwriad y cwestiwn, rwyf yn gwerthfawrogi eu bod yn angenrheidiol mewn ysgolion. Nid yw cael athrawon dadrithiedig mewn ystafelloedd dosbarth yn fuddiol i blant. Efallai eu bod yn ddadrithiedig oherwydd eu bod yn gwybod, fel athrawon cyflenwi, eu bod yn cael cyflog sy'n llawer llai o gymharu â'r athrawon yn yr ystafell ddosbarth nesaf. Felly rwyf yn falch eich bod wedi dweud bod Sir Gaerfyrdin yn cymryd rhan yn y grŵp gorchwyl y mae Llywodraeth Cymru wedi'i sefydlu a'ch bod hefyd wedi manteisio ar y cyfle i gymryd rhan y cynllun peilot. Rydych yn iawn bod yna fudd amlwg i'r athrawon newydd gymhwysy sydd wedyn yn cael swydd fel rhan o'r cynllun peilot hwnnw, ond mae hefyd yn fuddiol i'r ysgol, gan na fydd yn talu ffioedd 'afresymol' i asiantaethau. A wnewch ddweud wrthym beth fydd y sefyllfa debygol dros y 12 mis nesaf o ran athrawon cyflenwi, yn benodol yn Sir Gaerfyrdin?

## **Ymateb gan y Cyngorydd Glynog Davies, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant:-**

Fel dywedais, mae athrawon cyflenwi'n hanfodol. Ein bwriad yw cynyddu nifer yr athrawon cyflenwi ac rydym yn gwneud ein gorau glas i gyflawni hyn. Ein gweledigaeth ar gyfer y Sir yw y bydd y cynllun peilot yr ydym wedi'i ddechrau gyda chymorth Llywodraeth Cymru yn llwyddo. Gobeithiaf y bydd y cynllun yn hyfwy ac y bydd modd ei ehangu, oherwydd bod rhaid i athrawon cyflenwi fod yn dda, fel yr ydych yn ei ddweud. Nid ydym eisiau i unrhyw un gerdded mewn i ddosbarth nad yw'n adnabod y disgyblion ac nad oes syniad ganddo am yr hyn y mae'r dosbarth wedi'i ddysgu yn y gorffennol. Rydym eisiau system sy'n drylwyr. Dyna pam rwyf am i athrawon cyflenwi fynd ar gyrsiau hyfforddiant hefyd. Mae'n rhaid iddynt gael eu datblygu, felly gobeithio y gallwn ehangu ac ychwanegu at yr hyn rydym eisoes wedi'i ddechrau dros y 12 mis nesaf.

## **7. TAITH PRYDAIN 2018**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i Mr Ian Jones, Pennaeth Hamdden, a gafodd wahoddiad i roi cyflwyniad i'r Cyngor ynghylch Taith Prydain.

Rhoddodd y cyflwyniad y wybodaeth ddiweddaraf am fanteision a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â Thaith Prydain 2018, a fyddai'n dechrau yn Sir Gaerfyrdin ar 2 Medi 2018. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am gynllun rheoli'r digwyddiad, a oedd gyda'r nod o fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd hyrwyddo ar gyfer y Sir.

Esboniodd y Pennaeth Hamdden fod Taith Prydain, a elwir yn Daith Prydain OVO Energy at ddibenion noddi, yn ras feicio aml-gam ar ffyrrd Prydain, lle bydd cyfranogwyr yn rasio ar draws Prydain Fawr i gwblhau'r ras yn yr amser cyflymaf. Roedd cymal cyntaf ras Taith Prydain yn dechrau ym Mharc Gwledig Pen-bre ac yn mynd ymlaen i Gaerfyrdin, hyd at Ddyffryn Tywi ac o Lanyddyfri hyd at ddiwedd y cymal yng Nghasnewydd, Gwent.

Er mwyn cael gwell syniad o'r hyn y mae Taith Prydain yn ei gynnwys, cafodd yr Aelodau gyfle i wyllo clip fideo byr o Daith Prydain 2017.

Ar sail data o Arolwg Effaith Economaidd 2015 ynghylch llwybr Cymal 1 o Feaumaris i Wrecsam, gallai'r effaith economaidd bosibl yn sgil y ras hon roi hwb o £4.5m i'r economi gan roi cyfle rhagorol i'r Sir. Yn ogystal, byddai'r digwyddiad yn cael ei ddarlledu'n fyw mewn 125 o wledydd ledled y byd.

Rhoddodd y Pennaeth Hamdden fanylion am lwybr Cymal 1 fel y nodwyd ar y map yn y cyflwyniad. Rhoddwyd gwybod am y digwyddiad i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned, gan eu hannog i gyd i gymryd rhan, a oedd wedi cynhyrchu llawer o ymatebion a syniadau cadarnhaol. Byddai'r rhain yn cael eu ffurfioli a'u cynnwys yng nghynllun rheoli'r digwyddiad.

Roedd llawer iawn o waith hyrwyddo a gweithredu wedi'i wneud mewn ysgolion a chymunedau er mwyn codi ymwybyddiaeth ac adeiladu momentwm wrth baratoi at ddechrau'r digwyddiad. Byddai crysau-T i wirfoddolwyr a chrysau polo i staff yn hyrwyddo'r digwyddiad. Yn ogystal, roedd crys beicio proffesiynol, a oedd yn cael ei arddangos, wedi'i ddylunio i ddathlu Taith Prydain yn Sir Gaerfyrddin, a byddai ar gael i'w brynu ar-lein yn adran Taith Prydain ar wefan y Cyngor.

Ar ôl y cyflwyniad cafwyd sesiwn holi ac ateb ac ar ôl hynny diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am gyflwyniad rhagorol a llawn gwybodaeth.

## 8. YSTYRIED Y RHYBUDD O GYNNIG CANLYNOL:-

### 8.1. CYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD ANDRE MCPHERSON

"Gofynnaf i'r Cyngor hwn gadarnhau'r cynnig hwn bod bagiau ailgylchu glas yn cael eu gwella drwy ddefnyddio deunydd mwy trwchus a chryfach." Byddai hyn yn fwy cost effeithiol ac yn fwy addas i'r diben.

Eiliwyd y Cynnig.

Rhoddwyd cyfle i'r Cynigydd, gyda chefnogaeth ei eilydd, siarad o blaid y Cynnig a bu iddo amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Cynnig.

Gwnaed nifer o ddatganiadau yn erbyn y Cynnig.

Yn dilyn pleidlais

**PENDERFYNWYD peidio â chefnogi'r Rhybudd o Gynnig.**

## **9. YSTYRIED ARGYMHELLION Y BWRDD GWEITHREDOL O RAN Y MATERION CANLYNOL:-**

### **9.1. CYNLLUN RHEOLI ASEDAU PRIFFYRDD**

Bu'r Cyngor yn ystyried Cynllun Rheoli Asedau Priffyrd 2018, sy'n pennu'r amcanion a'r fframwaith polisi a strategaeth ar gyfer rheoli'r rhwydwaith priffyrd, sy'n cydymffurfio ag argymhellion y Côd Ymarfer newydd – Seilwaith Priffyrd sy'n cael ei Reoli'n Dda. Yn ogystal, yn unol â'r Côd Ymarfer, mae'r Cynllun yn nodi mabwysiadu dull seiliedig ar risg er mwyn rhoi adnoddau i'r ardaloedd lle mae'r angen mwyaf a lle byddai buddsoddi yn rhoi'r gwerth gorau.

Esboniodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd fod y Cynllun yn cynnwys pedair rhan allweddol a oedd yn cynnwys y strategaeth a'r polisi, fframwaith rheoli, datganiad blynnyddol o gyflwr a buddsoddiadau, a fyddai'n llywio'r gwaith o lunio llawlyfr cynnal a chadw ar gyfer elfennau amrywiol asedau'r priffyrd, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

Gofynnwyd a oes unrhyw reswm pwysig pam nad oedd y Cynllun wedi mynd gerbron y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd. Esboniodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd nad yw Rhan 4 wedi'i llunio eto fel Llawlyfr Cynnal a Chadw a fyddai'n manylu ar y ffordd o reoli elfennau unigol ac y byddai'n fwy priodol i'r Pwyllgor Craffu cyfrannu at y maes hwn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhelliaid canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-  
"cymeradwyo Cynllun Rheoli Asedau Priffyrd 2018"**

### **9.2. ADRODDIAD BLYNYDDOL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A'R DANGOSYDD DARBODAETH 2017-2018**

Atgoffwyd y Cyngor, yn ei gyfarfod ar 22 Chwefror 2017 (gweler Cofnod 16), ei fod wedi mabwysiadu Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2017/18. Yn unol â'r polisi hwnnw, cafodd y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod at 2 Gorffennaf 2018 (gweler Cofnod 12), yr Adroddiad Blynnyddol ynghylch Dangosyddion Darbodaeth a Rheoli'r Trysorlys a oedd yn amlinellu gweithgareddau Rheoli Trysorlys yr Awdurdod yn ystod 2017/2018 ac yn crynholi'r gweithgareddau oedd wedi digwydd yn ystod 2017/2018 o dan y penawdau canlynol: Buddsoddiadau; Benthyca; Dangosyddion Darbodaeth a Rheoli'r Trysorlys; Dangosyddion Darbodaeth; Prydlesu ac Aildrefnu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhelliaid canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:**

**"Bod Adroddiad Blynnyddol 2017/18 ynghylch Dangosyddion Darbodaeth a Rheoli'r Trysorlys yn cael ei dderbyn".**

**10. YSTYRIED ARGYMHELLION Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD O RAN Y MATER CANLYNOL:-**

**10.1. GWEITHIO'N DDI-BAPUR**

Ar gais y Cadeirydd, cafodd yr eitem hon ei gohirio tan gyfarfod nesaf y Cyngor.

**11. DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWYD AR Y 4 MEHEFIN 2018**

Mewn perthynas â Chofnod 14, Grant Gwsg Ysgol, nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynllun newydd a oedd yn cynyddu'r lwfans o £105 i £125 fesul disgybl dosbarth derbyn a blwyddyn 7 ers cyfarfod y Bwrdd Gweithredol ar 4 Mehefin 2018. Gofynnwyd a allai'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg sicrhau bod y £15k a glustnodwyd eisoes yn cael ei gadw er mwyn gwella cynllun Llywodraeth Cymru, drwy estyn y cynnig i ddisgyblion blynnyddoedd eraill.

Dyweddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg y byddai'r Awdurdod yn tynnu'r cynnig gwreiddiol yn ôl ac y byddai'n ailystyried defnyddio'r cyllid hwn, o ystyried cynnig newydd Llywodraeth Cymru i gynyddu'r grant a fyddai'n cynnwys cyfarpar chwaraeon a dillad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad y cyfarfod uchod.**

**12. AELODAETH PWYLLGORAU:**

Yn unol â Rheol Gweithdrefn Gorfforaethol 2 (2)(n), roedd yr enwebiadau canlynol gan y Grŵp Llafur wedi dod i law a

**PHENDERFYNWYD nodi bod y Cyngorydd Fozia Akhtar yn cymryd lle'r Cyngorydd Andre McPherson ar y Pwyllgor Trwyddedu.**

[Sylwer: Ar yr adeg hon, gohiriwyd y cyfarfod er mwyn galluogi Mr D T. Davies OBE MM a'i deulu i ddod i mewn i'r Siambr]

**13. CYFLWYNO RHYDDFRAINT CYNGOR SIR CAERFYRDDIN I MR DAVID TOM DAVIES OBE MM, BERLLAN FACH, DRYSLWYN, CAERFYRDDIN**

**[Sylwer: Ailymgynullodd y Cyngor yn y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin am 11.35am]**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Siambr y Cyngor i Mr David Tom Davies OBE MM, ynghyd â'i deulu a'i ffrindiau.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y penderfyniad unfrydol a wnaed gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 13 Mehefin 2018 (gweler Cofnod 11) i gyflwyno Rhyddfaint Sir Gaerfyrddin i Mr David Tom Davies OBE MM er mwyn cydnabod ei gofnod hir a nodedig o wasanaethu'r cyhoedd yn Llywodraeth Leol Cymru.

Bu Mr David Tom Davies, a gaiff ei alw'n 'D.T' gan bawb, yn gwasanaethu fel Cynghorydd ar gyfer Llandeilo a'r ardal gyfagos rhwng 1970 a 2003. Cafodd Mr Davies ei ethol gyntaf fel Cynghorydd Sir ar yr hen Gyngor Sir Caerfyrddin yn 1969. Parhaodd fel Cynghorydd Sir ar ôl ad-drefnu llywodraeth leol yn 1974 wrth i Gyngor Sir Dyfed ddod i fodolaeth yn swyddogol yn 1976.

Yn ystod ei gyfnod yn gwasanaethu Cyngor Sir Dyfed bu Mr Davies yn Gadeirydd y Cyngor yn 1981-82 ac yn Gadeirydd y Pwyllgor Addysg am nifer o flynyddoedd. Parhaodd ei yrfa drwy gyfnod arall o ad-drefnu awdurdodau lleol ugain mlynedd yn ddiweddarach gan ddod yn Gadeirydd cyntaf y Cyngor Sir Caerfyrddin presennol yn 1996.

Bu Mr Davies hefyd yn aelod o Gyngor Cymuned Llangathen am dros 40 o flynyddoedd ac yn aelod o fwrdd llywodraethwyr Ysgol Tre-gib. Bu'n allweddol i sefydlu'r Ardd Fotaneg Genedlaethol yn Llanarthne ac yn ddiweddarach Gerddi Aberglasne.

Clywodd y Cyngor am ddigwyddiadau nodedig ym mywyd Mr Davies, gan gynnwys cyfnod o amser pan gafodd ei gadw yn garcharor rhyfel ym Mrwydr Creta yn 1941 a threuliodd dair blynedd yn garcharor yn Awstria a Hwgari. Hefyd, cafodd ei ddal yn garcharor yng ngwersyll crynhoi Zemun ger Belgrade.

Roedd y Cynghorydd Cefin Campbell, sydd yn gwasanaethu ward Llanfihangel Aberbythych erbyn hyn, ymhliith y rheiny a enwebodd Mr Davies ar gyfer y Rhyddfaint Anrhydeddus. Siaradodd y Cynghorydd Campbell am ymrwymiad anhunalol Mr Davies i'w gymuned a'i allu fel Cadeirydd, yn ogystal â'i natur benderfynol a'i wytnwch arbennig yn ei wasanaeth yn y rhyfel.

Yn ogystal, cydnabuwyd bod Mr Davies yn dathlu ei ben-blwydd yn 100 oed heddiw.

Er mwyn cydnabod a nodi ei gyfraniad enfawr at wasanaethau cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin, cynigiwyd cyflwyno Rhyddfaint Sir Gaerfyrddin i Mr Davies.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y sgrôl a nodir y dyfyniad canlynol:-

"Sir Gaerfyrddin - Er mwyn cydnabod gwasanaeth nodedig a rhagorol a roddwyd i'r sir, penderfynwyd yng nghyfarfod Cyngor Sir Caerfyrddin ar 13 Mehefin 2018 gyflwyno Rhyddfaint y Sir i D.T. Davies. Rhoddwyd sêl gyffredin Cyngor Sir Gaerfyrddin heddiw ar 11 Gorffennaf ym mhresenoldeb D.T. Davies, y Cynghorydd J.M. Charles, Cadeirydd y Cyngor a Mark James, Prif Weithredwr y Cyngor."

Cyflwynodd y Cadeirydd Ryddid Sir Gaerfyrddin i Mr David Tom Davies OBE MM yn ffurfiol.

Talodd yr aelodau deyrnged i Mr Davies, gan gydnabod ei ymrwymiad dros gyfnod o 50 mlynedd i'r Cyngor, i'w gymuned ac i lywodraeth leol Cymru. Roedd yn uchel ei barch ac roedd pawb bob amser yn gwerthfawrogi'n fawr ei ddoethineb a'i brofiad. Cafodd ei longyfarch ar y llwyddiant unigryw a rhagorol hwn.

Diolchodd Mr Davies i bawb am yr anrhydedd a gyflwynwyd iddo ac am eu geiriau caredig.

---

**CADEIRYDD**

---

**DYDDIAD**

## Y CYNGOR SIR 12 MEDI, 2018

### Y PWNC:

### GWERTHUSIAD AR ÔL Y DIGWYDDIAD – TAITH PRYDAIN 2018

#### Y Pwrpas:

Cyflwyniad ar ôl y digwyddiad i'r aelodau ar ras Taith Prydain a ddechreuodd yn Sir Gaerfyrddin ar 2 Medi 2018.

#### Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:

Er gwybodaeth ac i gael sylwadau

#### Y rhesymau:

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am effaith gychwynnol y digwyddiad.
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y gwerthusiad cychwynnol ar ôl y digwyddiad a'r gwensi a ddysgwyd, er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i hyrwyddo'r Sir yn y dyfodol.

Angen ymgynghori â'r pwylgor craffu perthnasol: **NAC OES**

Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad **Nac oes**

Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad **Nac oes, er gwybodaeth**

#### YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL SY'N GYFRIFOL AM Y PORTFFOLIO:-

Y Cyng. Peter Hughes-Griffiths (Deiliad y Portffolio Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth)

#### Y Gyfarwyddiaeth:

Cymunedau

**Enw Pennaeth y  
Gwasanaeth/Awdur yr  
Adroddiad:**  
Ian Jones

#### Swydd:

Pennaeth Hamdden

**Rhif ffôn:** 01267 228309

**Cyfeiriad e-bost:**  
[IJones@sirgar.gov.uk](mailto:IJones@sirgar.gov.uk)



**EICH CYNGOR arleinamdanî**  
[www.sirgar.llyw.cymru](http://www.sirgar.llyw.cymru)

**YOUR COUNCIL doitononline**  
[www.carmarthenshire.gov.wales](http://www.carmarthenshire.gov.wales)

**EXECUTIVE SUMMARY  
COUNTY COUNCIL  
12<sup>TH</sup> SEPTEMBER, 2018**

**SUBJECT:  
POST EVENT EVALUATION - TOUR OF BRITAIN 2018**

**SUMMARY OF REPORT**

Presentation on the 2018 Tour of Britain which visited Carmarthenshire on the 2<sup>nd</sup> September.

The presentation will provide some initial feedback on the Tour of Britain Race, and its impact on the County. The presentation will promote some further feedback from members on the route of the first stage starting from Pembrey Country Park, onwards to Carmarthen, up the Tywi Valley and from Llandovery on to the end of the stage in Newport, Gwent.

The presentation will also summarise the benefits of staging the 'Grand Depart' (start) of the race, and what the County is doing to maximise the potential benefits from the event.

<b>DETAILED REPORT ATTACHED?</b>	<b>NO – Members will receive a presentation on the day</b>
----------------------------------	--



**EICH CYNGOR arleinamdanî**  
[www.sirgar.llyw.cymru](http://www.sirgar.llyw.cymru)

**YOUR COUNCIL doitononline**  
[www.carmarthenshire.gov.wales](http://www.carmarthenshire.gov.wales)

## IMPLICATIONS

I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :

Signed: *Ian Jones*

Head of Leisure

Policy, Crime & Disorder & Equalities	Legal	Finance	ICT	Risk Management Issues	Staffing Implications	Physical Assets
YES	YES	YES	NONE	YES	NONE	YES

### 1. Policy, Crime & Disorder and Equalities

The event supports the Carmarthenshire Cycling strategy recently approved by members.

*Gwyneth Ayres Corporate Policy and Partnership Manager.*

### 2. Legal

The event is underpinned by a legal agreement between the Tour of Britain event organisers and the County Council.

### 3. Finance

- There was a £20k direct cost to staging the event, with support funding provided by Welsh Government's Major Events unit.
- Additional marketing and promotional costs are covered from existing budget resources with anticipated financial benefits outlined in the presentation.



EICH CYNGOR arleinamdan  
www.sirgar.llyw.cymru

YOUR COUNCIL doitononline  
www.carmarthenshire.gov.wales

## **5. Risk Management Issues**

The event management plan was discussed in detail by the multi-agency Safety Advisory Group.

## **6. Physical Assets**

Use of County Council Assets including Pembrey Country Park for the start of the stage, and the County's highway network

## **CONSULTATIONS**

I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below

Signed : *Ian Jones*

Head of Leisure

### **Community / Town Council**

Relevant T&C Councils where race passes through, were fully involved in the race planning and played a huge part in the success of the event.

### **Relevant Partners**

Welsh Cycling

Welsh Government Major Events Team

### **Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**

#### **List of Background Papers used in the preparation of this report:**

#### **THESE ARE DETAILED BELOW**

Title of Document	File Ref No.	Locations that the papers are available for public inspection
Event agreement with ToB organisers	ToB01	Head of Leisure Office, 3 Spilman Street, Carmarthen



**EICH CYNGOR arleinamdanî**  
www.sirgar.llyw.cymru

**YOUR COUNCIL doitononline**  
www.carmarthenshire.gov.wales

## Y CYNGOR SIR

12<sup>FED</sup> MEDI 2018

### GORCHYMYN DATBLYGU LLEOL DRAFFT – CANOL TREF LLANELLI

#### ARGYMHELLION Y BWRDD GWEITHREDOL:

- Ystyried y sylwadau sydd wedi dod i law mewn perthynas â'r Gorchymyn Datblygu Lleol Drafft ar gyfer Canol Tref Llanelli.
- Cymeradwyo argymhellion yr adroddiad.
- Cymeradwyo cyflwyno'r Gorchymyn Datblygu Lleol (sy'n cynnwys argymhellion yr adroddiad hwn, a'r wybodaeth ddiweddaraf am dystiolaeth) i Lywodraeth Cymru gael cytuno arno.
- Rhoi awdurdod dirprwyedig i swyddogion wneud addasiadau teipograffyddol neu ffeithiol ansylweddol yn ôl yr angen, i wella eglurder a chywirdeb y Gorchymyn Datblygu Lleol.
- Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r swyddogion ddiweddarau'r sylfaen dystiolaeth a gwneud unrhyw newidiadau canlyniadol i'r Gorchymyn Datblygu Lleol, a sicrhau bod unrhyw faterion ychwanegol o ran cydymffurfiaeth gyfreithiol hefyd yn cael eu hintegreiddio.

Y rhesymau:

- Adlewyrchu'r amcanion adfywio corfforaethol yng Nghanol Tref Llanelli.
- Sicrhau bod y materion ynghylch bywiogrwydd a hyfywedd parhaus yng Nghanol Tref Llanelli yn cael eu hystyried yn briodol, a defnyddio darpariaethau Polisi Cynllunio cenedlaethol yn hyn o beth.

**Angen ymgynghori â'r Pwyllgor Craffu perthnasol:** OES - Pwyllgor Craffu Cymunedau -  
25 Mehefin 2018

Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad      OES - 2 Gorffennaf 2018

Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad      OES - 12 Medi 2018

#### YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL SY'N GYFRIFOL AM Y PORTFFOLIO:-

Y Cynghorydd Mair Stephens

Y Gyfarwyddiaeth : Yr Amgylchedd  Enw Pennaeth y Gwasanaeth:  Llinos Quelch  Awdur yr Adroddiad: Ian Llewelyn	Swyddi:  Pennaeth Cynllunio  Rheolwr Blaen-gynllunio	Rhifau ffôn: 01267 228918  Cyfeiriadau E-bost:  <a href="mailto:LQuelch@sirgar.gov.uk">LQuelch@sirgar.gov.uk</a>  <a href="mailto:IRLlewelyn@sirgar.gov.uk">IRLlewelyn@sirgar.gov.uk</a>
---	--	--

# **EXECUTIVE SUMMARY**

**COUNTY COUNCIL  
12<sup>TH</sup> SEPTEMBER 2018**

## **DRAFT LOCAL DEVELOPMENT ORDER – LLANELLI TOWN CENTRE**

### **1. BRIEF SUMMARY OF PURPOSE OF REPORT.**

This Report sets out progress and proposals in relation to the preparation of a Local Development Order (LDO) within Llanelli Town Centre, and seeks authorisation to proceed subject to supporting evidence, and Welsh Government approval to adopt.

The consultation period for the Draft LDO commenced on the 18<sup>th</sup> December 2017 and closed on the 9<sup>th</sup> February 2018. In total some 12 duly made representations were received from a range of organisations and interested parties - details of which, along with officer responses and recommendations are set out in the Appendices to this report.

### **2. Background**

It should be noted that this report has been prepared in the context of the Carmarthenshire Local Development Plan (LDP), with the progress towards the adoption of a LDO for Llanelli Town centre emerging from the need to continually monitor and assess its successful implementation. In this respect, both of the published LDP Annual Monitoring Reports (AMR) include specific reference to consideration being given to identifying a LDO within Llanelli Town Centre (Notably Policy Targets 17 and 18).

The LDO will seek to consider and address issues of vacancy and activity on both ground and upper floors, and to examine the potential for alternative uses within a defined spatial area of Llanelli Town Centre. The LDO will, in conjunction with other regeneration initiatives seek to assist in enhancing the vitality and vibrancy of the town centre through developing a ‘living centre’.

### **3. What is a LDO?**

A LDO is made by Local Planning Authority (LPA) and grants planning permission for the type of development specified within the terms of the LDO, and within a defined spatial area. It offers a LPA the opportunity in particular circumstances, to streamline the planning process by removing the need for developers/applicants to make a planning application to the LPA. This can allow an LPA to act proactively in response to locally specific circumstances within their area. As stated above it should relate to a geographical area, and should reflect the focused purpose of the LDO and the nature of its intended outcomes. An LDO may also be permanent or time limited depending on their objective. A time limited LDO provides for increased flexibility in fast changing

and developing areas which would allow for easy revision and updating, or to deliver a set objective over a fixed timescale.

Certain types of development as set out within the Town and Country Planning (General Permitted Development) Order 1995 (PDO) are already permitted without the need for planning permission. The GPDO grants a general permission for various types of relatively small scale and normally non contentious development without the need to make a planning application. LDOs can therefore be seen as an extension of permitted development, but decided upon locally in response to specific local circumstances.

For information a LPA can revoke a LDO at any time. Where it is proposed to modify a Local Development Order, re-consultation may be required.

The appended report provides further information in respect of the Legislative and Policy Framework and outlines some of the core considerations and limitations in respect of an LDO.

#### **4. Developing a LDO - Llanelli Town Centre**

Whilst the LDP sets a strong policy direction for retail within Carmarthenshire, the challenges facing Llanelli require specific consideration. Opportunities exist to co-ordinate with, and develop upon the successful grant award under the Vibrant and Viable Places initiative and the 'Opportunity Street' scheme for properties at the eastern end of Stepney Street. In addition, the establishment of a 'Task Force' to address matters surrounding the decline of the town centre and its environs, presents an opportune time evaluate options. There is potential to review and develop an effective strategy to promote uses to complement the town centre and out of town retail offer. In this respect it should not be predicated on an abandonment of the town centre's overall retail focus, but the consideration of a flexible approach to complement activities which support the centre's vitality and viability.

As part of its consideration and preparation of the LDO, the Llanelli Town Centre Task Force has received regular reports on progress and potential outcomes with spin off discussions held with Llanelli Town Council and Llanelli Rural Council. Further discussion have also be held with Natural Resources Wales, Dwr Cymru and representatives of the Business Improvement District. Further engagement has also been held with representative of pertinent internal service areas, including Public Health and Protection, Legal services in ensuring the effective development and operation of the LDO.

#### **5. Spatial Extent of the LDO**

The extent of the town centre to which the proposed LDO's provisions will relate is shown on the appended plan. Also appended is the extent of the C2 Flood Zone as defined through Technical Advice Note 15. The Draft LDO also includes further details in relation to the extent of the Llanelli Conservation Area and the location of Listed Buildings.

## 6. What will the LDO Permit

The table as set out below outlines the relevant use classes which will be permitted or otherwise through the LDO, and within its defined spatial area.

Use Class	WITHIN C2 ZONE		OUTSIDE C2 ZONE	
	Ground Floor (GF)	Other Floors (OF) (Excluding basements)	GF	OF (Excluding basements)
<b>A1 Shops</b>	Yes	Yes	Yes	Yes
<b>A2 Financial and Professional Services</b>	Yes	Yes	Yes	Yes
<b>A3 Food and Drink <i>Restaurants and Cafes</i></b>	Yes	Yes	Yes	Yes
<b>A3 Food and Drink <i>Drinking establishments (but not night clubs)</i></b>	Yes	Yes	Yes	Yes
<b>A3 Food and Drink <i>Hot food takeaways</i></b>	Yes	No	Yes	No
<b>B1 Business (offices other than those within A2)</b>	No	Yes	No	Yes
<b>C1 Hotels, boarding houses and guest houses</b>	No	Yes	No	Yes
<b>C3 Dwellings (residential incl. flats)</b>	No	Yes	No	Yes
<b>D1 Non-residential institutions (Note - LDO excludes Law Courts, Church Halls and Libraries)</b>	No	Yes	Yes	Yes
<b>D2 Assembly and leisure buildings (Note LDO only permits gyms and areas for indoor sports or recreations - except for motor sports, or where firearms are used)</b>	No	Yes	Yes	Yes
<b>Other (specified sui)</b> Launderettes and taxi businesses only	Yes	Yes	Yes	Yes

## **7. Lifetime of the LDO**

It is proposed that the LDO operates for an initial period of three years from its adoption. This period will however be subject to ongoing review and may be extended or reduced in light of the success or failure of the LDO.

Development that commences while the LDO is in effect may be completed and/or continued after this three-year period (subject to the conditions of the LDO). Once the LDO has expired, however, no new changes of use will be allowed under its terms without conventional planning permission. Reference should be had to the content of Appendices in relation to the legislative framework in respect of revocation and revision and the potential for compensation should an LDO be withdrawn.

## **8. Operation of the LDO**

The LDO is subject to a 2 stage process (Certificate of Conformity and Commencement Notice Approval).

Where a 'development' is proposed which is within the LDO area, and conforms with the schedule of approved use classes (as referenced above), a Certificate of Conformity will be issued by the Council. Applicants will be required to submit their proposals and pay the nominal fee of £90 to the LPA.

A change of use cannot commence however until a Commencement Notice Approval is released by the LPA. In this respect an applicant will need to satisfy any requirements as set out in those regulatory regimes that are outside of the planning system e.g. building regulations and any required pre-conditions as set out within the LDO.

A Commencement Notice Approval will not be issued where the necessary information to support the proposal has not been provided and/or where the required pre-conditions have not been met.

The initial consultations undertaken to date have indicated a requirement to develop a notification system whereby key consultees (e.g. Town/Rural Councils, Dwr Cymru or Natural Resources Wales) are informed of LDO proposals. This reflects that such bodies would ordinarily be notified/consulted through the planning application process.

Further details on the operation of the LDO are set out within the document itself and the Statement of reasons. See the link below:

<http://www.carmarthenshire.gov.wales/home/council-services/planning/planning-policy/draft-local-development-order-llanelli-town-centre/#.Wt2jO-aoumQ>

## **9. Monitoring and Measuring Success**

